# DEDDF TAI 2004

## GOFYNION AC AMODAU TRWYDDED

Bydd unrhyw gyfeiriad at 'y Cyngor' yn golygu Cyngor Dinas Casnewydd sy'n ymwneud â'r adran: Tai, Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Dinas Casnewydd, Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR, Ffôn: 01633 656656 neu e-bost: EHHousing@newport.gov.uk

**PWYSIG:**
**DYLECH DDARLLEN Y DDOGFEN HON YN OFALUS GAN EI BOD YN CYNNWYS YR AMODAU SYDD YNGHLWM Â'CH TRWYDDED. RHAID CYDYMFFURFIO Â'R AMODAU HYN A ALL GYNNWYS GOFYNIAD I GWBLHAU GWAITH AR YR EIDDO O FEWN AMSER PENODOL.**

**BYDD METHU Â CHYDYMFFURFIO AG UNRHYW AMOD SYDD YNGHLWM WRTH Y DRWYDDED YN DROSEDD A GELLIR CYMRYD ACHOS CYFREITHIOL YN ERBYN DEILIAD Y DRWYDDED GYDA DIRWY ANGHYFYNGEDIG.**

1. Ni fydd nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo yn fwy na'r uchafswm a nodir ar y drwydded. E-bostiwch EHHousing@newport.gov.uk cyn gwneud unrhyw newidiadau i benderfynu a ydynt yn drwyddedadwy, ac i benderfynu a oes angen amrywio'r drwydded Tai Amlfeddiannaeth.

2. Ni fydd defnydd a lefel meddiannaeth pob ystafell yn cael ei newid heb gymeradwyaeth y Cyngor. E-bostiwch EHHousing@newport.gov.uk cyn gwneud unrhyw newidiadau i benderfynu a ydynt yn drwyddedadwy, ac i benderfynu a oes angen amrywio'r drwydded Tai Amlfeddiannaeth.

3. Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newid materol mewn amgylchiadau o ran deiliad y drwydded, y rheolwr neu unrhyw un arall ynghlwm wrth yr eiddo, yr eiddo ei hun neu'r gwaith o'i reoli o fewn saith diwrnod gwaith o'r newid. Mae hyn yn cynnwys newid manylion cyswllt.

4. Ni fydd unrhyw addasiad all effeithio ar amodau'r drwydded yn cael eu gwneud heb roi gwybod i'r Cyngor ac ymgynghori ag ef ymlaen llaw.

5. Bydd deiliad y drwydded yn rhoi datganiad ysgrifenedig sy'n nodi'r telerau i bob meddiannwr - contract meddiannaeth.

6. Bydd deiliad y drwydded yn rhoi'r canlynol i bob meddiannwr/deiliad contract newydd ar ddechrau eu meddiannaeth: Rhentu Cartrefi: rhestr wirio ar gyfer landlordiaid a thenantiaid [HTML] | LLYW.CYMRU a hefyd:

    a) Darparu **datganiad ysgrifenedig o gontract m**eddiannaeth - a.31 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, dyma'r cytundeb rhwng y tenant neu'r trwyddedai a elwir 'deiliad y contract' – a'i landlord. Dylai'r rhan fwyaf o bobl sy'n rhentu eu cartref gan landlord preifat dderbyn math penodol o gontract meddiannaeth o'r enw 'contract safonol'. Bydd hwn naill ai'n gontract safonol cyfnod penodol neu'n gontract safonol cyfnodol. Gweler Canllaw contractau meddiannaeth safonol [HTML] | LLYW.CYMRU

    b) Darparu gwybodaeth am y landlord (neu'r asiant) – **ffurflen RHW2**, adrannau 39-40, Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

    c) Gwybodaeth ysgrifenedig am ailgylchu a threfniadau storio, casglu a gwaredu gwastraff. Gweler Gwastraff ac Ailgylchu | Cyngor Dinas Casnewydd

DO NOT COPY

d) Gwybodaeth ysgrifenedig am weithdrefnau dianc o’r adeilad mewn achos tân, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddeall y larwm, pwysigrwydd drysau tân a diogelu’r llwybr dianc, cadw’r llwybr dianc yn rhydd rhag unrhyw rwystrau a defnydd o’r offer ymladd tân sydd ar gael. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod yr holl feddiannwyr yn llwyr ymwybodol o’r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â larymau tân ffug.

e) Dylai manylion ysgrifenedig amlinellu **Rhwymedigaeth y landlord: mae ffitrwydd i fod yn gartref - a.91, Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (ffitrwydd i fod yn gartref) (Cymru) 2022 -** yn ei gwneud yn ofynnol i'r landlord sicrhau bod y cartref yn 'ffit i fod yn gartref'. Dylai deiliad y contract gael gwybodaeth am sut mae'r annedd yn bodloni’r gofynion **Ffitrwydd i Fod yn Gartref** Mae Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd i Fod yn Gartref) (Cymru) yn nodi'r 'materion a'r amgylchiadau' sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw eiddo'n addas ai peidio. Os nad yw'r eiddo'n bodloni gofynion o'r fath ar unrhyw adeg, dylai deiliad y drwydded roi manylion i ddeiliad y contract ynghylch pwy i gysylltu â nhw a sut. Dylai manylion ysgrifenedig o’r fath gynnwys trefniadau sydd ar waith ar gyfer ymdrin â gwaith trwsio neu waith angenrheidiol i’r eiddo neu unrhyw gyfleusterau, offer neu beiriannau a ddarparwyd gan y landlord. Dylai hyn gynnwys rhifau ffôn a manylion unrhyw drefniadau a wnaed gyda rheolwyr, masnachwyr neu ddarparwyr eraill ar gyfer cyflawni’r gwasanaethau hyn.

f) Gwybodaeth ysgrifenedig am safonau ymddygiad a ddisgwylir a goblygiadau posibl ymddygiad gwrthgymdeithasol gan y meddianwyr a/neu unrhyw ymwelwyr y gall fod ganddynt a nodir o dan Sŵn ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

g) Darparu gwybodaeth ynghylch blaendal cadw a diogelu blaendal mewn cynllun awdurdodedig - cynllun blaendal tenantiaeth a gymeradwywyd gan y llywodraeth - Atodlen 2, Deddf Rhentu Cartrefi (Ffïoedd etc) Cymru 2019 a Deddf Rhentu Cartrefi (Ffïoedd ac ati) (Blaendal Cadw) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019 a.45 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Cynlluniau Blaendal) (Gwybodaeth Ofynnol) (Cymru) 2022.

h) Darparu copi dilys o **TPY** ar gyfer yr annedd - a.6, Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012.

i) Darparu copi dilys o **Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (ECR) -** Rheoliad 6, Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd i Fod yn Gartref) (Cymru) 2022.

j) Darparu copi dilys o **Dystysgrif Diogelwch Nwy -** Rheoliad 36, Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998.

7. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod pob deiliad contract, ar ôl derbyn y wybodaeth uchod yn llofnodi’r datganiad Dealltwriaeth fel y nodir yn Atodiad A y drwydded hon. Rhaid cadw cofnod o’r Datganiad wedi’i lofnodi mewn llyfr log a’i gyflwyno i’r Cyngor o fewn saith diwrnod o gais o’r fath.

8. Os yw deiliad y drwydded yn byw dros 50 milltir o Ddinas Casnewydd, yna rhaid penodi rheolwr cymwys sy'n byw o fewn 50 milltir i ardal yr Awdurdod.

9. Rhaid bodloni pob cais rhesymol gan yr awdurdod lleol i gael mynediad i’r eiddo, a bydd deiliad y drwydded neu’r rheolwr yn sicrhau mynediad o’r fath. Os na chaniateir mynediad i bob ystafell yn yr eiddo, neu os na chaiff Tîm Tai Iechyd yr Amgylchedd ei hysbysu eich bod wedi canslo o fewn 48 awr i'r apwyntiad gwreiddiol, codir tâl.

10. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau ei fod wedi'i gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru. Os yw'r landlord yn cynnal gosod a rheoli yn yr eiddo, rhaid iddo feddu ar drwydded Rhentu Doeth Cymru i wneud hynny neu benodi asiant trwyddedig i osod a rheoli'r eiddo ar ei ran. Yn ogystal â chadw at yr amodau hyn o

DRAFT COPY

drwydded Tai Amlfeddiannaeth, rhaid i bob landlord sy'n gosod ac yn rheoli eu heiddo sicrhau eu bod yn cadw at amodau trwydded Rhentu Doeth Cymru.

**<u>Cyflwr yr Eiddo</u>**

11. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau yr ymgymerir â phob mater o ran atgyweirio ffabrig yr adeilad, cyfarpar neu ddodrefn y rhoddwyd gwybod amdano iddo gan ddeiliad y contract, y Cyngor neu ymwelwyr fewn cyfnod amser sy'n briodol i risg a brys y gwaith.

12. Bydd deiliad y drwydded yn cynnal ymddangosiad allanol yr eiddo i safon dda gan gynnwys gerddi, waliau ffiniol a ffensys.

13. Ni fydd gwastraff, sbwriel nac unrhyw beth arall yn cronni yn unrhyw un o'r gerddi, yr ierdydd na'r cyrtiau blaen. Cânt eu cadw mewn cyflwr glân a thaclus.

14. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod yr eiddo yn cydymffurfio â safonau gofod mabwysiedig y Cyngor.

15. Os cyflenwir nwy i'r eiddo, bydd deiliad y drwydded yn cynhyrchu tystysgrif diogelwch nwy i'r cyngor bob blwyddyn ar gyfer yr eiddo, gyda dyddiad o fewn y 12 mis diwethaf. Bydd hyn gan gontractwr wedi cofrestru ar y Gofrestr Diogelwch Nwy ar gyfer pob gosodiad, cyfarpar a ffliw nwy a ddarperir gan ddeiliad y drwydded.

16. Bydd deiliad y drwydded yn cyflwyno i'r Cyngor, yn ôl y galw, dystysgrifau archwiliad a phrawf diogelwch trydanol cyfredol a boddhaol ar gyfer pob peth trydanol sydd wedi'i osod yn yr eiddo, gan gynnwys unrhyw gyflenwad gan landlord. Dylai tystysgrifau o'r fath gael eu rhoi gan gontractwyr sy'n aelodau o gymdeithas masnach neu gyngor priodol gan sicrhau eu cymhwysedd (neu a all fel arall ddangos eu cymhwysedd i'r Cyngor e.e. drwy gofrestru at ddibenion Rhan P Rheoliadau Adeiladau 2010).

17. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod adroddiad cyflwr gosodiadau trydanol yr eiddo yn cael eu hadnewyddu bob pum mlynedd o leiaf. Bydd yr holl waith cod 1 a 2 yn adran Namau ac Awgrymiadau'r adroddiad trydanol yn cael eu cyflawni a'u hadfer i safon foddhaol. Ar gais, bydd deiliad y drwydded yn rhoi'r adroddiad i'r Cyngor.

18. Bydd deiliad y drwydded yn cadw'r holl gyfarpar trydanol a roddir iddo yn y tŷ mewn cyflwr diogel. Profion Dyfeisiadau Cludadwy blynyddol: Bydd tystysgrif prawf dyfeisiau cludadwy yn cael ei ddarparu i'r Cyngor fel tystiolaeth.

19. Ni chaiff gosodiadau trydanol sy'n rhoi pŵer i systemau larymau tân neu oleuadau argyfwng (os yw'n briodol) eu cyflenwi drwy fesuryddion tocyn nac unrhyw gyflenwad mesuredig y meddiannydd.

20. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod prif gyflenwad trydanol parhaus ac nad oes unrhyw rwystr y byddai'n effeithio ar weithrediad y system larymau tân a'r system goleuadau argyfwng (os yw'n berthnasol) i'r holl eiddo.

21. Bydd deiliad y drwydded ond yn cyflenwi dodrefn i'r eiddo sy'n cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Dodrefn ac Addurniadau (Diogelwch Tân) 1998. Bydd yr holl ddodrefn yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn berthnasol i orchuddion a llenwadau clustogau a roddir. Rhaid rhoi dogfennaeth yn ategu cydymffurfiaeth y dodrefn gyda'r gofynion hyn, neu ddatganiad wedi'i lofnodi'n nodi hyn, mewn llyfr log. Bydd deiliad y drwydded yn rhoi datganiad i'r Cyngor i'r perwyl hwn yn ôl y galw.

22. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod modd dianc priodol; cyfleusterau rhagofalon tân ac offer yn yr eiddo yn unol â safon fabwysiedig y Cyngor. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod unrhyw waith a restrir yn Atodlen 1 y drwydded hon yn cael ei gynnal a'i gwblhau o fewn y cyfnod amser penodol mewn perthynas â'r gofyniad hwn. Bydd deiliad y drwydded yn rhoi datganiad i'r Cyngor, ar alw, ynghylch dyluniad y system, y gwaith o'i gosod a'i chyflwr.

23. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod yr holl larymau tân, goleuadau brys a diffoddwyr tan yn yr eiddo yn cael eu gwasanaethu a'u profi bob blwyddyn a'u cynnal yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a/neu safonau Prydeinig neu Ryngwladol perthnasol. Bydd unrhyw broblemau'n cael eu trwsio'n syth. Bydd unrhyw dystysgrifau profion ac unrhyw waith adfer yn cael ei wneud gan gontractwyr sy'n aelodau o gymdeithas masnach neu gyngor priodol sy'n sicrhau eu cymhwysedd neu sy'n gallu dangos eu cymhwysedd i'r Cyngor. Bydd yr holl ddogfennaeth berthnasol o ran gwasanaethu blynyddol yr offer hwn yn cael ei chadw mewn llyfr log. Rhaid i'r cofnod hwn fod ar gael i'r Cyngor ei archwilio ar gais.

24. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod pob deiliad contract yn cael eglurhad ar ddechrau'r feddiannaeth o ran rhagofalon tan a'r cyfleusterau yn y tŷ. Dylai hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i ddeall y larwm, pwysigrwydd drysau tân a diogelu'r llwybr dianc, cadw'r llwybr dianc yn rhydd rhag unrhyw rwystrau a defnydd o'r offer ymladd tân a ddarperir. Ar ôl cael cyfarwyddiadau o'r fath, rhaid i bob deiliad contract lofnodi'r Datganiad Dealltwriaeth sydd yn Atodiad A y drwydded hon. Rhaid cadw cofnod o'r datganiad wedi'i lofnodi mewn llyfr log a'i gyflwyno i'r Cyngor o fewn saith diwrnod o gais o'r fath.

25. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod y Cyngor yn cael gwybod am ddigwyddiad tân yn yr eiddo o fewn 24 awr i ddeiliad y drwydded neu ei gynrychiolydd enwebedig gael ei hysbysu am y tân.

26. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod person priodol, sydd â chysylltiad â'r eiddo, ar gael i fynd i'r eiddo mewn achos ffug er mwyn gwneud yn siŵr bod y system larwm tân yn cael ei hailosod cyn gynted â phosibl.

27. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod yn rhaid i unrhyw beth a ystyrir fel gwaith brys gael ei drwsio o fewn 24 awr e.e. boeler yn torri / dim trydan / dim mynediad at ddŵr ac ati.

28. Bydd deiliad y drwydded yn darparu larwm carbon monocsid mewn unrhyw ystafell sydd â nwy, olew neu offer llosgi tanwydd solet. Dylai'r larwm carbon monocsid gydymffurfio â Safonau Prydeinig BS EN 50291 a chael ei bweru naill ai gan fatri sydd wedi'i gynllunio i weithredu am oes waith y larwm (dylai hefyd fod â dyfais rhybuddio defnyddwyr pan fydd oes waith y larwm yn dod i ben) neu larwm wedi'i bweru gan y prif gyflenwad gyda gwifrau sefydlog (nid gwifrau y gellir eu plygio i mewn) a dyfais i rybuddio os oes diffyg ar y synhwyrydd.

29. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod gan yr eiddo isafswm sgôr perfformiad ynni o E a bydd yn darparu ardystiad boddhaol i'r Cyngor i ddarparu tystiolaeth. Ni ddylid rhentu eiddo sydd â sgôr F neu G fel y rhagnodir dan Reoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015 (legislation.gov.uk). Gellir cael rhagor o wybodaeth yn y Canllaw Tystysgrifau Perfformiad Ynni - GOV.UK (www.gov.uk) Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod yr eiddo yn cydymffurfio â Rheoliadau Safon Effeithlonrwydd Ynni Gofynnol Domestig (MEES) Eiddo rhentu preifat domestig: safon effeithlonrwydd ynni gofynnol - canllawiau landlordiaid - GOV.UK (www.gov.uk).

DO NOT COPY

30. Rhaid i'r amwynderau yn yr eiddo fodloni'r safonau gofynnol penodedig, gan ystyried nifer y meddianwyr y mae'r drwydded ar eu cyfer. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod unrhyw waith a restrir yn Atodlen 1 y drwydded hon yn cael ei gynnal a'i gwblhau o fewn y cyfnod amser penodol.

31. Os dymuna deiliad y drwydded gynyddu nifer y deiliaid contract a ganiateir, bydd rhaid iddo wneud cais i amrywio amodau'r drwydded. Efallai na chaniateir i ddeiliaid contract ychwanegol fyw yn yr eiddo hyd oni chymeradwyir yn ffurfiol yr amrywiad i amodau'r drwydded a hyd oni ddarperir y cyfleusterau angenrheidiol.

**Gwastraff**

32. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw sicrhau bod cynwysyddion addas a digonol neu gyfleusterau storio ar gyfer storio gwastraff cartref cyffredinol a gwastraff ailgylchadwy yn cael eu darparu ar ddechrau bob contract ar gyfer gwastraff yn disgwyl i gael ei gasglu, i atal anifeiliaid neu adar neu ddefnyddwyr anawdurdodedig.

33. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw sicrhau bod ardal storio addas a digonol ar gyfer cynwysyddion gwastraff gweddilliol ac ailgylchu. Rhaid i bob cynhwysydd a bin gwastraff ac ailgylchu gael ei storio o fewn cwrtil y Tai Amlfeddiannaeth, neu os nad yw hyn yn bosibl, byddant yn cael eu storio mewn ardal storio dan glo neu geisio cymeradwyaeth gan Dimau Gwastraff ac Ailgylchu a Thai Iechyd yr Amgylchedd CDC ar y rhif ffôn: 01633 656656, e-bost: info@newport.gov.uk and EHHousing@newport.gov.uk .

34. Bydd deiliad y drwydded yn gwneud cais am gynwysyddion gwastraff gweddilliol domestig, cynwysyddion ailgylchu neu gyfleusterau storio drwy gysylltu â Chyngor Dinas Casnewydd, Gwastraff a Glanhau, Casnewydd NP20 4UR rhif ffôn: 01633 656656 neu archebu ar-lein yn https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Order-new-bags-and-bins.aspx. Gall fod angen talu am gynwysyddion neu gyfleusterau storio o'r fath.

Nodir yr hawliad maint bin gwastraff domestig isod ac mae deiliad y drwydded yn gymwys ar gyfer un bin olwynion domestig fesul eiddo os yw'r dreth gyngor yn cael ei thalu (waeth pwy sy'n talu'r dreth gyngor). Ar gyfer casgliadau ailgylchu mae'r cymhwysedd yn dibynnu ar nifer yr anheddau. Nodir y cymhwysedd ar gyfer gwastraff domestig ac ailgylchu isod:

| GWASTRAFF GWEDDILLIOL | | |
|---|---|---|
| Un Dreth Gyngor | Hawliad biniau | Tra'n aros am fin |
| Hyd at 4 o bobl | Bin 120 litr | 2 sach |
| 5-7 o bobl | Bin 180 litr | 3 sach |
| 8 neu fwy | Bin 240 litr | 4 sach |
| Treth Gyngor Unigol | Hawliad biniau | Tra'n aros am fin |
| Hyd at 4 o bobl | Bin 120 litr | 2 sach |
| 5-7 o bobl | Bin 180 litr | 3 sach |
| 8 neu fwy o bobl | Bin 240 litr | 4 sach |

| AILGYLCHU | | | |
|---|---|---|---|
| Eiddo unigol | | Fflatiau | |
| Waeth beth yw nifer y preswylwyr | 1 bocs gwyrdd ar gyfer poteli a jariau gwydr, ac eitemau trydanol bach | Bocsys ymyl y ffordd (gweler y golofn ar y chwith) | Hyd at 5 o fflatiau |
| | 1 bag coch y gellir ei ailddefnyddio ar gyfer metelau cymysg a phlastigau, gan gynnwys:<br>• caniau metel, tuniau, erosolau a ffoil,<br>• poteli plastig, potiau, tybiau, a hambyrddau, a<br>• chartonau bwyd a diod (fel Tetra Pak a thiwbiau creision), | 1 x bin 660 litr ar gyfer cerdyn/papur; 1 x bin 660 litr ar gyfer plastigau/caniau; 1 x bin 240 litr ar gyfer gwydr; 1 x bin 240 litr ar gyfer bwyd a chadis bwyd. | 6-12 o fflatiau |
| | 1 bag glas y gellir ei ailddefnyddio ar gyfer cardbord a phapur, ac | 1 x bin 1100 litr ar gyfer cerdyn/papur; 1 x bin 1100 litr ar gyfer plastigau/caniau; 1 x bin 360 litr ar gyfer gwydr; 1 x bin 240 litr ar gyfer bwyd a chadis bwyd | 12-18 o fflatiau |
| | 1 cadi bwyd bach (mewnol) ac 1 cadi bwyd mawr (allanol) ar gyfer gwastraff bwyd | 2 x bin 660 litr ar gyfer cerdyn/papur; 2 x bin 660 litr ar gyfer plastigau/caniau; 2 x bin 360 litr ar gyfer gwydr; 1 x bin 240 litr ar gyfer bwyd a chadis bwyd | 18-24 o fflatiau |

| Capasiti (litr) | Lled (mm) | Dyfnder (mm) | Taldra (m) |
|---|---|---|---|
| 240 | 575 | 730 | 1060 |
| 360 | 580 | 875 | 1080 |
| 660 | 1360 | 780 | 1190 |

35. Yn achos Tai Amlfeddiannaeth sydd â phedwar neu fwy o ddeiliaid contract (mae hyn yn berthnasol i fflatiau os oes mwy na 4 deiliaid contract, neu lety a rennir os yw mwy na 4 o bobl ar wahân yn talu'r dreth gyngor), bydd angen archwiliad safle ar y Tai Amlfeddiannaeth i asesu'r ardal storio ac i bennu lefel y cynwysyddion sydd eu hangen. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded ar ddechrau'r contract meddiannaeth yw trefnu archwiliad safle gyda Thimau Gwastraff ac Ailgylchu CDC, gallwch drefnu hyn gyda Chanolfan Gyswllt Cyngor Dinas Casnewydd ar y rhif ffôn: 01633 656656.

36. Ar adeg cyhoeddi'r drwydded, nid yw'r eiddo yn bodloni'r gofynion hyn; bydd deiliad y drwydded yn cwblhau'r gwaith a nodir yn yr atodiad wedi'i atodi o fewn cyfnod o (insert timescale) i ddyddiad cyhoeddi'r drwydded.

37. Bydd deiliad y drwydded yn hysbysu Timau Gwastraff ac Ailgylchu Cyngor Dinas Casnewydd yn syth ar ôl hysbysiad am gynhwysydd bin ailgylchu neu gyfleusterau storio sydd wedi'i golli/ei ddwyn neu ei ddifrodi i wneud cais am gynhwysydd newydd ar-lein yn https://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Order-new-bags-and-bins.aspx. Gall methu â rhoi gwybod am hyn arwain at beidio â chasglu gwastraff yr eiddo.

38. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod deiliaid contract yn cael eglurhad ar ddechrau'r feddiannaeth, ynghylch y trefniadau storio a gwaredu sydd ar waith mewn perthynas â gwastraff. Bydd y biniau a'r cynwysyddion yn cael eu rhoi allan i'w casglu erbyn 6:00am ar ddiwrnod y casgliad waeth beth yw'r amser y mae'r criw yn cyrraedd fel arfer. Yn ogystal, bydd deiliad y drwydded yn cael ac yn cadw'n ddiogel ar ddechrau'r feddiannaeth y datganiad wedi'i lofnodi o ddealltwriaeth pob meddiannwr o'r trefniadau, a'i gytundeb i lynu atynt. Mae'r Datganiad Dealltwriaeth sydd ei angen yn Atodiad A y drwydded hon. Caiff copïau o'r datganiad wedi'i lofnodi eu cadw mewn llyfr log a'u cyflwyno i'r awdurdod lleol o fewn saith diwrnod o gais o'r fath.

39. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau lle bo'n bosibl nad yw unrhyw wastraff yn deillio o waith adeiladu neu welliannau i'r tŷ yn cronni yng nghwrtil yr eiddo. Os nad yw hyn yn bosib, bydd yn cael ei waredu heb oedi i gyfleuster gwaredu gwastraff trwyddedig.

40. Bydd deiliad y drwydded yn cymryd yr holl gamau rhesymol fel rheolwr eiddo diwyd i sicrhau bod pob deiliad contract yn storio ac yn gwaredu ei wastraff mewn modd priodol. Gall camau o'r fath gynnwys cyngor ar lafar neu'n ysgrifenedig ac ati fel sy'n briodol. Os yw gwastraff yn cronni, bydd deiliad y drwydded yn trefnu i gariwr gwastraff cofrestredig waredu'r gwastraff neu bydd yn gwaredu'r gwastraff ei hun drwy fynd ag ef i gyfleuster gwastraff trwyddedig addas; Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref neu safle tirlenwi yn Docks Way, Maesglas, Casnewydd, Gwent NP20 2NS.

41. Bydd deiliad y drwydded yn roi gwybod i ddeiliaid contract na chaniateir cronni dodrefn di-angen, teclynnau a gosodiadau arall y cartref mewn iardiau, gerddi neu gyrtiau blaen eiddo a bod modd gwaredu'r eitemau hynny drwy drefnu casgliad gyda ffi fechan, neu drwy fynd â nhw eu hunain i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Docks Way, Maesglas, Casnewydd, Gwent NP20 2NS I gael rhagor o wybodaeth am amseroedd agor, ffïoedd ac eitemau a dderbynnir, ewch i Gwastraff ac Ailgylchu | Cyngor Dinas Casnewydd.

42. Bydd unrhyw wastraff y mae meddiannwyr yn ei adael yn yr eiddo yn cael ei waredu gan ddeiliad y drwydded cyn gynted â phosibl ar ran y deiliad contract newydd sy'n meddiannu'r eiddo.

43. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod pob deiliad contract yn llwyr ymwybodol o'i gyfrifoldebau o ran cadw'r gerddi, yr ierdydd a'r cyrtiau blaen yn lân.

44. Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod gerddi, cyrtiau blaen a waliau ffiniol/ffensys yr eiddo yn rhydd rhag gordyfiant, sbwriel neu eitemau eraill sy'n cronni ac yn cael eu cadw'n lân ac yn daclus.

**<u>Sŵn ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol</u>**

DRAFT COPY

45. Bydd deiliad y drwydded yn cymryd yr holl gamau rhesymol ac ymarferol i atal neu leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i reoli sŵn gan bobl sy'n byw yn y tŷ neu'n ymweld ag ef. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:-
   i) Yr hyn a olygir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol
   ii) Y safonau a ddisgwylir gan ddeiliad y contract meddiannaeth a'i ymwelwyr.
   iii) Egluro effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar bobl eraill yn yr ardal, gan gynnwys sgil-effeithiau gan yr Heddlu, sefydliadau addysgol a'r Awdurdod Lleol.
   iv) Cofnodi manylion pob cwyn a dderbynnir ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol.
   v) Defnyddio sancsiynau contract a chymryd camau gweithredu dan y contract meddiannaeth.

47. Yn dilyn derbyn gwybodaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol, bydd angen i bob deiliaid contract lofnodi'r datganiad sydd yn Atodiad A y drwydded hon. Rhaid cadw copïau o'r Datganiad Dealltwriaeth mewn llyfr log a'u cyflwyno i'r cyngor o fewn saith diwrnod o gais o'r fath.

48. Bydd deiliad y drwydded yn cydweithio â'r Cyngor er mwyn datrys problemau yn ymwneud â sŵn neu ymddygiad gwrthgymdeithasol a bydd, ar gais, yn dangos ei fod wedi cymryd camau rhesymol a chymesur i reoli'r broblem.

49. Bydd deiliad y drwydded yn cadw ac yn cynnal llyfr log. Bydd copi yn yr eiddo, a rhaid i'r llyfr fod yn gyfredol mewn perthynas â'r canlynol:
   - Cytundebau deiliad contract gan gynnwys gwybodaeth am y landlord (neu'r asiant) – **ffurflen RHW2** a, cadw a diogelu blaendaliadau.
   - Dogfennaeth/datganiad dodrefn
   - Atodiad A: Datganiad Dealltwriaeth gan gynnwys rhagofalon tân, trefniadau gwastraff, sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a datganiadau rheoli gwastraff.
   - Tystysgrifau Diogelwch Nwy boddhaol.
   - Tystysgrifau Gosodiadau Trydanol Diogel Boddhaol.
   - Profion Dyfeisiau Cludadwy Boddhaol; Tystysgrifau Prawf Dyfeisiau Cludadwy.
   - Cofnodion gwasanaeth Larwm Tân boddhaol.
   - Tystysgrifau prawf Larwm Tân boddhaol.
   - Cofnodion gwasanaeth Diffoddwr Tân boddhaol.
   - Tystysgrifau prawf Goleuadau Argyfwng boddhaol (os yw'n berthnasol)
   - Tystysgrif Perfformiad Ynni boddhaol; TPY ar gyfer yr annedd.
   - Copi o'r drwydded ac amodau Tai Amlfeddiannaeth.
   - Archwiliadau gwasanaethau neu dderbynebion ar gyfer unrhyw offer diffodd tân sydd yn yr eiddo.
   - Sut mae'r annedd yn bodloni'r gofyniad **Ffitrwydd i fod yn gartref** ac os nad yw'r annedd yn bodloni'r gofynion hynny ar unrhyw adeg, dylid rhoi manylion â phwy i gysylltu a sut.
   - Rhoi taflenni gwybodaeth i'r meddianwyr mewn perthynas â gwaredu a chynnal a chadw/storio sbwriel ac ailgylchu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a sut na chaniateir hyn, diogelwch tân ac ati.

DRAFT COPY

**Atodlen 1 Diogelwch Tân**

**Atodlen 2 Safonau Amwynderau**

**Amodau Ychwanegol: Atodiad**

DO NOT COPY